

DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST


*Dysgu gwersi o'r gorffennol er mwyn
creu dyfodol gwell a mwy diogel*



YMDDIRIEDOLAETH
DIWRNOD
COFIO'R HOLOCOST

*'Wnes i addo peidio â chadw'n
dawel pan fydd dynion yn
dioddef poen a chymilydd.
Rhaid ochri gyda rhywun bob
amser. Mae niwtraliaeth yn
helpu'r gormeswr, nid y dioddefwr.
Mae tawelwch yn annog y
poenydiwr, nid y rhai a boenydir
byth.'*

Elie Wiesel, goreswr yr Holocaust



27 Ionawr yw'r diwrnod i bawb gofio am y miliynau o bobl a gafodd eu llofruddio yn yr Holocaust, o dan erledigaeth y Natsïaid ac mewn achosion diweddarach o hil-laddiad yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur. Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust, rydym yn anrhydeddu'r bobl a oroesodd eu gormeswyr ac yn herio'n hunain i fyw ein bywydau ni heddiw yn ôl y gwersi a ddysgwyd o'u profiadau nhw.

27 Ionawr yw'r diwrnod y cafodd y carcharorion a oedd yn weddill yn Auschwitz-Birkenau, gweryll lladd mwyaf y Natsïaid, eu rhyddhau. Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust, byddwch yn ymuno â miloedd o bobl eraill sy'n dod at ei gilydd mewn gweithgareddau ledled y DU i gofio'r gorffennol ac ystyried sut gallan nhw gyfrannu at herio casineb a chreu dyfodol gwell a mwy diogel.

SUT MAE HIL-LADDIAD YN DIGWYDD?

Dydy hil-laddiad byth yn digwydd dros nos. Ym mhob achos, mae yna gyfres o amgylchiadau sy'n digwydd neu sy'n cael eu hachosi gan bobl er mwyn creu'r hinsawdd ar gyfer hil-laddiad. Dydy hil-laddiad ddim yn digwydd ar ei ben ei hun, mae'n broses raddol sy'n gallu dechrau os nad yw gwahaniaethu, hiliaeth a chasineb yn cael eu ffrwyno a'u hatal. Rydym ni'n ffodus yma yn y DU; dydyn ni ddim mewn perygl o ddiodeff hil-laddiad. Mae llawer i'w wneud o hyd er mwyn creu dyfodol mwy diogel; ac mae Diwrnod Cofio'r Holocaust yn gyfle i ddechrau'r broses hon.

Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust, rydym ni'n dysgu gan y bobl hynny sydd wedi diodeff gorthrwm yn ystod yr Holocaust, erledigaeth gan y Natsïaid a'r achosion ers hynny o hil-laddiad.

Mae gan bob un ohonom ni gyfrifoldeb unigol i sicrhau parch at wahaniaethau. Gallwn ni i gyd gyfrannu tuag at greu dyfodol gwell a mwy diogel.

'Dydy hi ddim yn hawdd ond dw i'n ceisio defnyddio fy llais i ymgyrchu yn erbyn casineb.'

Sabina Miller, goroeswr yr Holocaust



Y LLWYBR I HIL-LADDIAD

Cam 1 Dosbarthu	Ni chaiff y gwahaniaethau rhwng pobl eu parchu. Ceir gwahaniad o 'ni' a 'nhw'. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio stereoteipiau, neu drwy allgau pobl sy'n cael eu hystyried yn wahanol.
Cam 2 Symboleiddio	Amlygiad gweledol o gasineb yw hyn. Gorfodwyd Iddewon oedd yn byw yn Ewrop o dan reolaeth y Natsïaid i wisgo sêr melyn i ddangos eu bod yn 'wahanol'.
Cam 3 Dad-ddynoli	Caiff y rhai sy'n cael eu hystyried yn 'wahanol' eu trin heb unrhyw fath o hawl ddynol nac urddas personol. Yn ystod Hil-laddiad Rwanda cyfeiriwyd at Twtsis fel 'chwilod du'; roedd y Natsïaid yn cyfeirio at yr Iddewon fel 'fermin'.
Cam 4 Trefnu	Caiff hil-laddiad ei drefnu bob amser. Yn aml mae cyfundrefnau casineb yn hyfforddi'r rhai fydd yn dinistrio'r bobl.
Cam 5 Polareiddio	Mae grwpiau casineb yn dechrau lledaenu propaganda. Defnyddiodd y Natsïaid y papur newydd <i>Der Stürmer</i> i ledaenu ac ysgogi negeseuon o gasineb am bobl Iddewig.
Cam 6 Paratoi	Caiff diodeffwyr eu dewis ar sail eu gwahaniaethau. Ar ddechrau'r hil-laddiad yn Cambodia, gwahanodd y Khmer Rouge y bobl oedd yn byw mewn dinasoedd ac nad oeddynt yn gweithio yn y caeau. Gorfododd y Natsïaid Iddewon yn Ewrop i fyw mewn getoau.
Cam 7 Difodi	Mae'r grŵp casineb yn llofruddio eu diodeffwyr mewn ymgyrch fwrriadol a systematig o drais. Dinistriwyd neu newidiwyd miliynau o fywydau y tu hwnt i adnabyddiaeth trwy hil-laddiad.
Cam 8 Gwadu	Mae'r cyflawnwyr neu genedlaethau diweddarach yn gwadu bodolaeth unrhyw drosedd.



'Ffatri ladd oedd Auschwitz i bob pwrpas, gyda phobl yn danwydd. Fe wnes i oroesi ac addo i mi fy hun y byddwn yn dweud wrth y byd am yr hyn ddigwyddodd.' Lily Ebert, goroeswr yr Holocaust

YR HOLOCAST 1941 – 1945


Rhwng 1941 a 1945, ceisiodd y Natsïaid ddifa pob Iddew yn Ewrop. Yr Holocaust yw'r enw ar yr ymgais systematig a threfnus hon a oedd wedi'i chynllunio i lofruddio Iddewon Ewrop.

O'r adeg y daethon nhw i rym ym 1933, defnyddiodd y Natsïaid bropaganda, erledigaeth a deddfwriaeth i wadu hawliau dynol a sifil Iddewon. Fe ddefnyddion nhw ganrifoedd o wrth-semitiaeth fel sail i hyn i gyd.

Erbyn 1941, roedd Iddewon wedi cael eu crynhoi a'u gorfodi i fyw mewn getos gorlawn. Fel rhan o'r 'Ateb Terfynol', caewyd y getos ac anfonwyd yr Iddewon i wersylloedd, megis Auschwitz-Birkenau. Mewn canolfannau lladd, anfonwyd y rhai a oedd yn cael eu hystyried yn rhy hen neu'n rhy wan i weithio – gan gynnwys menywod a phlant – yn syth i'r siambrau nwy. Cafodd y rhai a ystyriwyd yn ddigon cryf eu hanfon i weithio o dan amodau erchyll.

Erbyn diwedd yr Holocaust, roedd chwe miliwn o ddynion, menywod a phlant Iddewig wedi'u lladd mewn getos, drwy gael eu saethu mewn grwpiau mawr, mewn gwersylloedd crynhoi ac mewn gwersylloedd difodi.

Rhagor o wybodaeth: hmd.org.uk/holocaust



Bathodynau dosbarthu gwersylloedd crynhoi y Natsïaid © USHMM



'Yn yr ysgol roedd mwy a mwy o bwysau arnaf i ddwued 'Heil Hitler'. Ond gwrthodais oherwydd, yn fy nghalon, allwn i byth anrhydeddu dyn yn y ffordd yma fel petai'n dduw a allai achub pobl. Cefais fy arestio'n 12 oed.'

Simone Arnold, Tyst Jehofa a goroeswr Erledigaeth y Natsïaid

ERLEDIGAETH Y NATSÏAID 1933 – 1945

Fe wnaeth y Natsïaid erlid pobl roedden nhw'n eu gweld fel bygythiad i'w delfryd o Almaenwyr o 'dras Ariaidd pur'.

Roedd y Natsïaid yn categoreiddio pobl yn ôl eu hil – ac roedden nhw'n credu bod pobl Ariaidd yn well na phawb arall. Roedd eu cred mewn 'purdeb hiliol' a'u gwrthwynebiad i gymysgu hiliau yn rhan o'u cyfiawnhad dros gasáu Iddewon, Sipsiwn (Romani), a phobl dduon oedd yn byw yn yr Almaen. Cafodd pobl Slafaidd eu diystyru fel pobl *Untermenschen* (is-ddynol). Defnyddiwyd syniadau eithafol a oedd yn gysylltiedig ag ewgeneg (y nod o wella cyfansoddiad genetig y boblogaeth) i gyfiawnhau gormes yn erbyn pobl anabl a phobl hoyw. Cafodd gwrthwynebwyr gwleidyddol y Natsïaid – comiwnyddion, undebwyr llafur a democrataid cymdeithasol yn bennaf – ynghyd â phobl â chredoau crefyddol a oedd yn mynd yn groes i ideoleg y Natsïaid, fel Tystion Jehofa, eu targedu hefyd.

Cafodd cannoedd ar filoedd o fywydau eu dinistrio neu eu newid y tu hwnt i bob dirnadaeth oherwydd Erledigaeth y Natsïaid, ac ni chafodd dioddefaint llawer o grwpiau ei gydnabod tan flynyddoedd wedi 1945.

Rhagor o wybodaeth: hmd.org.uk/nazi-persecution



Lluniau carcharorion yn Amgueddfa Hil-laddiad Tuol Sleng, Cambodia © David Parker



'Mae'n anodd dweud yr hanes wrthyach gan ei fod yn dod â'r holl deimladau o fod yn ddiymadferth yn ôl... mae angen i bobl wybod er mwyn osgoi hil-laddiad rhag digwydd eto.'

Var Ashe Houston,
goroeswr Hil-laddiad yng Nghambodia

HIL-LADDIAD YNG NGHAMBODIA 1975 – 1979

Syfrdanwyd y byd gan ffawd Cambodia pan gipiodd y Comiwnyddion radical, y Khmer Rouge, dan eu harweinydd, Pol Pot, rym yn y wlad ym 1975. Fe wnaethon nhw ddechrau rhaglen i ailadeiladu Cambodia drwy greu 'Blwyddyn Sero'.

Fe wnaeth y Khmer Rouge wagio'r trefi a'r dinasoedd, gan orfodi dynion, merched a phlant i gefn gwlad i weithio ar ffermydd cydweithredol. Cafodd pobl sâl, pobl anabl, yr hen a'r ifanc iawn eu gorfodi i adael, dim ots beth oedd eu cyflwr corfforol. Fe wnaethon nhw dargedu grwpiau lleiafrifoedd ethnig, yn cynnwys pobl ethnig o Tsieina, Fietnam a Gwlad Thai. Cafodd crefydd ei wahardd gan y gyfundrefn – cafodd hanner y boblogaeth o Fwslimiaid Cham ac 8,000 o Gristnogion eu llofruddio. Cafwyd gwared ar Fwdhaeth o'r wlad hefyd.

Cafodd y rhai a ystyriwyd yn fygythiad i'r dosbarth newydd hwn o werin bobl – gan gynnwys meddygon, cyfreithwyr, athrawon a hyd yn oed pobl oedd yn gwisgo sbectol – eu llofruddio. Amcangyfrifir bod dwy filiwn a mwy o bobl wedi marw o ganlyniad i lofruddiaeth, clefydau, lludded a newyn. Un o sloganau'r Khmer Rouge oedd 'nid oes elw i'ch arbed; nid yw eich dinistrio'n gollod'.

Rhagor o wybodaeth: hmd.org.uk/cambodia



*'Lladdwyd fy mrawd mawr, fy mrawd bach, fy chwaer
a fy nhad a'm mam ganddynt. Fy nheulu cyfan. A'r
teulu estynedig; fy enythrdd, fy nghefndryd...llawer,
llawer iawn, alla i ddim dweud wrthyich faint.'*

Appolinaire Kageruka,
goroeswr yr Hil-laddiad yn Rwanda

HIL-LADDIAD YN RWANDA 1994

Mewn 100 diwrnod ym 1994 lofruddiwyd tua miliwn o Twtsis a Hwtws cymedrol yn Rwanda.

Digwyddodd yr Hil-laddiad ar ôl blynyddoedd o anghydfod rhwng Hwtws a Twtsis, a hanes diweddar o erledigaeth a gwahaniaethu yn erbyn Twtsis. Ar 6 Ebrill 1994, cafwyd awyren roedd Arlywydd Rwanda yn teithio arni ei saethu i lawr. Cyhuddodd arweinwyr Hwtw eithafol Twtsis o ladd yr Arlywydd a dywedwyd wrth sifiliaid Hwtw dros y radio ac ar dafod leferydd ei bod hi'n ddyletswydd arnynt i gael gwared ar y Twtsis.

Cyflawnwyd yr hil-laddiad yn bennaf â llaw a chefnogwyd y sgwadiau lladd – yr *Interahamwe* – gan y wladwriaeth, gan gynnwys gwleidyddion a swyddogion lleol a fu'n cynorthwyo i grynhoi'r dioddefwyr a sicrhau lleoliadau addas i'w lladd.

Lladdwyd miloedd ar filoedd o Twtsis, yn ddynion, menywod a phlant, mewn ysgolion ac eglwysi. Yn aml iawn, roeddent yn adnabod eu llofruddwyr – cymdogion, cydweithwyr, cyn gyfeillion, a hyd yn oed berthnasau trwy briodas mewn rhai achosion.

Rhagor o wybodaeth: hmd.org.uk/rwanda



Eirch yn barod i'w claddu ym mhentref Potočari © Richard Newell



'Y peth gwaetha am gael fy nghadw yng Ngwersyll Omarska oedd y ffaith bod y lle'n cael ei warchod gan fy hen ffrindiau ysgol, cyn gymdogion, cyn blismyn a oedd arfer fy nghadw'n ddiogel cyn y rhyfel, a hyd yn oed cyn athrawon.'

Kemal Pervanić, goroeswr Gwersyll Crynhoi Omarska

HIL-LADDIAD YM MOSNIA 1995

Ym 1992, wrth i Iwgoslafia chwalu, fe wnaeth llywodraeth Bosnia ddatgan annibyniaeth y wlad, yn groes i ddymuniadau'r boblogaeth o Serbiaid Bosnia a oedd yn gweld eu dyfodol fel rhan o 'Serbia Fwyaf'. Mewn ymgais i sicrhau grym gwleidyddol, dyma luoedd Serbiaidd Bosnia'n cychwyn ar ymgyrch o derfysg. Cafodd Mwslemiaid a Chroataid eu gorfodi o'u cartrefi, eu treisio a'u cadw mewn gwersylloedd crynhoi fel yr un yn Omarska, a chafodd llawer eu llofruddio.

Ym mis Gorffennaf 1995, gyda'r rhyfel cartref yn parhau, dyma luoedd Serbiaidd Bosnia, dan arweiniad Ratko Mladić, yn cyrraedd tref Srebrenica. Roedd y Cenhedloedd Unedig wedi datgan yr ardal yn 'barth diogel' ond ni wnaeth hyn atal milwyr Serbiaidd Bosnia rhag gorfodi'r menywod a'r plant i mewn i lorïau a bysiau a gwahanu'r dynion a'r bechgyn i gael eu lladd.

Cafodd tua 8,000 o ddynion a bechgyn dros 13 oed Mwslimaidd eu lladd yn Srebrenica. Cafodd llawer eu saethu mewn caeau wrth geisio dianc. Cafodd 1,500 eu cloi mewn warws a'u saethu gyda gynnuau peiriant a grenadau. Llofruddiwyd eraill yn eu miloedd ar ffermydd, meysydd pêl-droed ac iardiau ysgol.

Y gyflafan yn Srebrenica yw'r achos unigol mwyaf o lofruddiaeth dorfol yn Ewrop ers 1945.

Rhagor o wybodaeth: hmd.org.uk/bosnia



Pentref Um Ziefa yn wenfflam, Darfur © Brian Steidle



'Dw i yma, ond dw i'n dal i deimlo fy mod i yno...
Dw i'n teimlo fy mod i gyda nhw yn Darfur gan
fod fy nheulu cyfan yno. Dw i ddim eisiau llawer
o broblemau yn fy mhentref yn Darfur. Dw i ddim
eisiau rhyfel a dw i ddim eisiau saethu.'

Hawa, goroeswr yr Hil-laddiad yn Darfur

HIL-LADDIAD YN DARFUR 2003 - PRESENNOL

Rhanbarth yng ngorllewin y Swdan yw Darfur. Yn 2003, dechreuodd rhyfel cartref yn y rhanbarth rhwng y boblogaeth sefydlog o ffermwyr a'r boblogaeth nomadig, wrth i densiwn hiliol fynd o ddrwg i waeth.

Mewn ymateb i ymosodiadau gan y gwrthryfelwyr, mae Llywodraeth y Swdan wedi cefnogi'r milisia Arabaidd nomadig – y *Janjaweed* – wrth iddyn nhw ymosod ar bentrefwyr Affricanaidd du yn Darfur oherwydd y gred eu bod yn cefnogi'r gwrthryfelwyr. Maen nhw wedi dinistrio cannoedd o bentrefi a llofruddio miloedd o bobl.

Mae'r erchyllterau hyn wedi cael eu condemnio fel hil-laddiad gan y Llys Troseddol Rhyngwladol (ICC) a llywodraethau ym mhedwar ban byd.

Mae rhwng 200,000 a 400,000 o sifiliaid wedi colli eu bywydau yn y rhyfel cartref hwn; mae'n anodd i geidwaid yr heddwch rhyngwladol gadw cofnodion cywir. Mae hyd at 2.5 miliwn o bobl yn Darfur, a Chad dros y ffin, yn methu â dychwelyd i'w cartrefi o hyd.

Rhagor o wybodaeth: hmd.org.uk/darfur



DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST LEDLED Y DU

O Gaerwysg i Aberdeen, o Belfast i Brighton, caiff Diwrnod Cofio'r Holocaust – 27 Ionawr – ei nodi gan filoedd o bobl sy'n dod ynghyd mewn ysgolion, lleoedd gwaith a mannau cyhoeddus. Trwy aros gyda'i gilydd i fyfyrio ar ddigwyddiadau erchyll y gorffennol, gall y sawl sy'n nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust (DCH) ymrwmo i greu dyfodol gwell a mwy diogel.

O gynnu canhwyllau a theithiau cerdded heddwch i blannu coed a chyfansoddi barddoniaeth, mae digwyddiadau'r diwrnod yn cynnwys pob aelod o'r gymuned. Trwy gysylltu ar-lein mae miloedd mwy yn helpu i sicrhau y bydd y diwrnod a'i neges bwysig yn cyrraedd ein hymwybyddiaeth gyfunol.

Waeth a yw'r digwyddiadau'n fawr neu'n fach, yn gyhoeddus neu'n breifat, ar-lein neu wyneb-yn-wyneb, mae pob un ohonynt yn chwarae rôl hanfodol yn y DU i nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust. Ar 27 Ionawr gallwch ganfod sut i chwarae eich rhan a dysgu gwersi o'r gorffennol er mwyn creu dyfodol gwell a mwy diogel i bawb.

Trowch y dudalen i weld sut gallwch chi gymryd rhan.

O'r chwith uchaf - gyda'r cloc: Côr Gospel ACM yn canu cân a gomisiynwyd yn arbennig gennym ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust 2013, gwasanaeth aml-ffydd yn King's Lynn, Norfolk ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust 2011, East London Dance yn perfformio dawns wedi'i chreu ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust 2012, a goroeswr yr Holocaust yn cyfarfod myfyrwyr Central St Martin's, a fu'n gyfrifol am yr arddangosfa gelf 'I Will' a ysbrydolwyd gan Ddiwrnod Cofio'r Holocaust 2012



Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust (HMDT) yw'r elusen, a sefydlwyd gan y Llywodraeth, sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi Diwrnod Cofio'r Holocaust yn y DU. Mae'r Ymddiriedolaeth yn annog ac yn ysbrydoli unigolion a sefydliadau ledled y DU i chwarae eu rhan wrth ddysgu gwersi o'r dyfodol a chreu dyfodol gwell a mwy diogel.

Gallwch

- drefnu'ch gweithgaredd eich hun i nodi'r diwrnod
- nodi'r diwrnod ar-lein
- cymryd rhan yn un o weithgareddau'r diwrnod

Am ragor o wybodaeth ewch i **hmd.org.uk**

020 7785 7029

enquiries@hmd.org.uk



[hmd_uk](https://twitter.com/hmd_uk)



[hmd.uk](https://www.facebook.com/hmd.uk)

PO Box 61074, London, SE1P 5BX

Cefnogir Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r
Holocaust gan



Department for
Communities and
Local Government

Rhif elusen: 1109348